

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2025 a 7 Ebrill 2025
Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed, Caerdydd ar 26 Chwefror 2025 a 7 Ebrill 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr ac ni chwblhawyd yr un holiadur gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn cynnig amgylchedd golau, agored a glân, a gallai pobl â phroblemau symudedd gael mynediad iddo gan ddefnyddio lifft. Roedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion gan fod drysau y gellid eu cloi a llenni tafladwy yn yr ystafelloedd trin.

Roedd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a buddiannau ymarfer corff ar gael i annog y cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd.

Roedd argaeledd hebryngwyr yn cael ei hysbysebu'n dda, gan sicrhau diogelwch yn ystod archwiliadau.

Nododd y cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb cwestiynau. Roedd polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar waith, ac roedd angen cofnodi cydsyniad ysgrifenedig yn y cofnodion meddygol.

Roedd y wybodaeth yn Saesneg yn bennaf, ond dylid gwneud ymdrechion i'w darparu yn Gymraeg. Roedd dolen sain a gwasanaethau cyfieithu ar gael yn y clinig. Roedd y cleifion yn cael cyfarwyddiadau gofal ar ôl triniaeth a manylion costau.

Roedd adborth yn cael ei geisio ac roedd camau'n cael eu cymryd mewn ymateb iddo, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant a pharchu hawliau cleifion trawsryweddol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod tystiolaeth o gydsyniad ysgrifenedig yn cael ei chynnwys yn y cofnodion meddygol
- Ystyried anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Arddangos gwybodaeth er mwyn annog y cleifion i ofalu am eu hiechyd eu hunain
- Roedd adborth yn cael ei geisio ac roedd camau yn cael eu cymryd mewn perthynas ag ef.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr ystafell aros yn groesawgar ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, gyda digon o seddi, gan gynnwys cadair â breichiau ar gyfer unigolion â phroblemau symudedd. Roedd yr adeilad yn hygyrch ac roedd mesurau iechyd a diogelwch ar waith, gan gynnwys yr asesiadau risg diweddaraf a systemau nwy a thrydan wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd y rhagofalon diogelwch tân yn ddigonol, er i ni nodi y dylid cynnal ymarferion tân yn fwy rheolaidd. Roedd y clinig yn lân, gyda mesurau rheoli heintiau effeithiol, gan gynnwys digon o gyfarpar diogelu personol a threfniadau priodol i gael gwared ar offer miniog. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac roedd cyffuriau a chyfarpar brys ar gael.

Roedd y polisi diogelwch yn gyfredol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant digonol. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, er y nodwyd rhai gwelliannau.

Gwnaethom nodi bod yn rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ffurflenni blynyddol i AGIC yn cael eu cwblhau a bod cofnodion y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal ymarferion tân bob chwe mis a chofnodi'r gwiriadau hyn ar ffeil
- Cwblhau'r ffurflen flynyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau
- Sicrhau y caiff cofnodion meddygol y cleifion eu cadw'n ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr adeilad yn hygyrch ac roedd mesurau iechyd a diogelwch ar waith
- Roedd y clinig yn lân ac roedd mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith
- Roedd y polisiau diogelwch yn gyfredol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant diogelwch.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan y clinig strwythur rheoli clir, ac roedd rheolwr swyddfa yn cynorthwyo rheolwr y practis. Roedd y rheolwr cofrestredig newydd ymddiswyddo, oedd yn golygu bod angen i'r clinig benodi rheolwr cofrestredig newydd a chofrestru hyn ag AGIC.

Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn gynhwysfawr ond nid oedd yn cynnwys llofnod adolygydd. Roedd hysbysiadau diogelwch yn cael eu rhannu drwy gyswllt y ganolfan feddygol.

Nid oedd tystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth.

Roedd y polisiau'n gyfredol ac roedd y weithdrefn gwyno yn glir, gydag ymatebion amserol i gwynion.

Roedd angen i'r polisi recriwtio gynnwys cyfeiriad at wiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd a hanes cyflogaeth llawn. Roedd arfarniadau staff wrthi'n cael eu cynnal a dylent gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Ebrill. Roedd yr hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, ac roedd hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol wyneb yn wyneb wedi cael ei drefnu. Anaml yr oedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal, ac fel arfer roedd y wybodaeth yn cael ei rhannu dros e-bost.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Penodi rheolwr cofrestredig newydd a chyflwyno'r gwaith papur i AGIC
- Arddangos holl dystysgrifau AGIC mewn man amlwg yn y lleoliad
- Y polisi recriwtio gan gynnwys y ddogfennaeth a gwblheir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn gynhwysfawr
- Roedd pob polisi yn gyfredol
- Cwblhau hyfforddiant gorfodol i'r holl staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed ar gyfer yr arolygiad ym mis Chwefror a mis Ebrill 2025. Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un o'r 14 o gleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (11/14) neu'n 'dda'. Dyma ddau o'r sylwadau a gawsom am y lleoliad:

“Roedd y staff yn garedig iawn.”

“Mae staff y dderbynfa yn gyfeillgar ac yn effeithlon. Cyfathrebu da, nodiadau atgoffa dros e-bost.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion am sut y gallant gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i smygu a gwybodaeth am fuddiannau ymarfer corff.

Urddas a pharch

Roedd y lleoliad yn olau, yn agored ac yn lân ac roedd ar lawr cyntaf yr adeilad uwchben Canolfan Feddygol Cyncoed. Roedd lifft i sicrhau bod y rhai oedd â phroblemau symudedd yn gallu cael mynediad i'r adeilad.

Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd gan yr ystafelloedd ymgynghori a thrin ddrysau y gellid eu cloi ac roedd gan yr ystafell drin lenni tafladwy er mwyn sicrhau urddas y cleifion. Nodwyd bod yr holl ddrysau'n cael eu cau pan fyddai'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio a bod y bleinds ar y ffenestri hefyd yn cael eu cau. Roedd ardal y dderbynfa a'r ystafell aros yn y clinig o faint priodol. Nodwyd fod y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am eu hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar hyn. Roedd arwyddion hefyd ar ddrysau pob ystafell ymgynghori a thrin yn hysbysu'r cleifion bod hebryngwyr ar gael. Nod y defnydd o hebryngwyr yw amddiffyn y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf wrth i'r claf gael ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael ynghylch cael cydsyniad ar sail gwybodaeth. O'r wybodaeth sydd wedi'i harddangos yng nghofnodion meddygol y cleifion, roedd yn amlwg bod y cleifion yn cael amser i ystyried opsiynau eu triniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cydsyniad yn cael ei gofnodi yn y cofnodion meddygol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff tystiolaeth o gydsyniad ysgrifenedig yn cael ei chynnwys yn y cofnodion meddygol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn y lleoliad yn Saesneg. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud rhagor o ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Dylai'r lleoliad ystyried anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd dolen sain ar gael i helpu'r cleifion hynny a oedd yn drwm eu clyw yn y brif ganolfan feddygol i gyfathrebu â'r staff yn y gwasanaeth. Roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael yn y lleoliad hefyd ar gyfer cleifion na allent siarad Saesneg.

Gwelsom fod gwybodaeth ar wefan y lleoliad a oedd yn cynnwys ffotograffau a manylion am y gweithwyr proffesiynol a'r ymgynghorwyr sy'n gweithio yn y clinig.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gafodd weithdrefn neu driniaeth, a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ar ôl eu triniaeth a chanllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu mewn argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion namyn un hefyd fod cost y driniaeth wedi'i hegluro iddynt cyn iddynt ddechrau eu triniaeth.

Dywedodd tri chlaf a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gwnaethant nodi na chawsant wir gynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn ystod eu taith fel claf.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym y byddai'r ymgynghorwyr yn hysbysu staff y dderbynfa os oedd oedi cyn gweld y claf nesaf ac yna byddai'r cleifion yn cael gwybod yn unol â hynny. Roedd arwydd yn yr ardal aros yn dweud wrth y cleifion i roi gwybod i staff y dderbynfa os oedd byddai oedi o fwy nag 20 munud.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y cleifion yn cael apwyntiadau i sicrhau y gallai meddygon ymgynghorol roi gofal yn ddiogel a bod nifer staff y dderbynfa yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisïau ysgrifenedig ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, am breifatrwydd, urddas a chyfrinachedd, ynghyd â bwllo a seiberfwlio. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Cawsom sicrwydd y byddai hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai rhagenwau a ffefrir bob amser yn cael eu defnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cyfle i gleifion roi sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r lleoliad drwy god ymateb cyflym (QR) er mwyn iddynt roi adborth yn barhaus. Roedd yr adborth diweddar wedi'i ddadansoddi gyda'r staff yn sôn am y sylwadau cadarnhaol a adawyd gan y cleifion. Roedd bwrdd 'dywedo' chi, gwnaethom ni' i ddangos canlyniadau'r adborth a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth, gan gynnwys darparu deunydd darllen ychwanegol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd awyrgylch cyffredinol yr ystafell aros yn dda ac roedd yr amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd digon o seddi yn yr ardal aros gan gynnwys cadeiriau â breichiau i helpu cleifion â phroblemau symudedd.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur namyn un fod yr adeilad yn hygyrch.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y lleoliad wedi cymryd mesur priodol i reoli'r risg i iechyd a diogelwch. Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn y gweithle addas ar waith, a oedd yn gyffredol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau priodol ar waith i sicrhau bod y systemau nwy a thrydan yn y lleoliad yn gweithio a'u bod wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd rhagofalon diogelwch tân priodol ar waith o ran cyfarpar tân a'r diffoddwyr tân ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar diogelwch tân a'r cyfarpar canfod tân. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd ymarfer tân wedi'i gynnal yn y practis ers diwedd 2023.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis a bod cofnod o'r gwiriadau hyn yn cael ei gadw ar ffeil.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreuedd di-fwg.

Roedd cyfarwyddiadau'n cael eu harddangos yn glir i'r staff eu dilyn os bydd tân ac roedd digon o ffyrdd o ddianc os bydd tân, ac roedd y rhain wedi'u harddangos yn glir.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i helpu i arwain y staff ar atal a rheoli heintiau. Roedd y gwasanaeth yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal achosion o groes-heintio. Roedd gorsafoedd golchi dwylo ar gael ym mhob ystafell ymgynghori. Roedd arwyddion hylendid dwylo ar y sincipiau. Er na ellid gweithredu'r tapiau ar y sincipiau yn rhwydd gan ddefnyddio penelin er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio, gwelsom dystiolaeth bod y lleoliad wedi gofyn am ddyfyniadau gan grefftwy'r lleol i osod tapiau a gaiff eu gweithredu gan ddefnyddio penelin.

Roedd offer miniog (fel nodwyddau) wedi cael eu gosod mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel. Roedd hyn wedi helpu i leihau'r risg o anaf, i staff a chleifion, a chroes-heintio o offer miniog a ddefnyddiwyd. Gwnaethom nodi mai cyfarpar untro oedd y rhan fwyaf o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn' (13/14) neu'n gymharol lân. Dywedodd pob un o'r cleifion a fynegodd eu barn fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd trefniadau i waredu gwastraff yn ddiogel ac i waredu offer miniog meddygol, gorchuddion a PPE, ar y cyd â'r practis meddygol a oedd yn cyd-leoli. Roedd gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cludwr gwastraff.

Er nad oedd archwiliadau wedi'u cynnal ar y trefniadau atal a rheoli heintiau yn y lleoliad, dywedwyd wrthym fod pob ymgynghorydd a oedd yn defnyddio'r lleoliad yn dod â'i gyfarpar ei hun er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd ymgynghori yn cael eu glanhau a'u dihalogi

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio yn y clinig mewn cypyrddau dan glo. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau tymheredd ystafelloedd yn cael eu cynnal yn y clinig. Yn ystod yr arolygiad, prynwyd thermomedr a lluniwyd log er mwyn monitro'r tymheredd yn yr ystafell lle'r oedd y feddyginiaeth yn cael ei storio. Nodir y mater hwn yn Atodiad A.

Dywedwyd wrthym y byddai presgripsiynau preifat yn cael eu hysgrifennu gan yr ymgynghorwyr sy'n gweithredu yn y safle i unrhyw glaf yr oedd angen meddyginiaethau penodol arno. Yna, byddai'r lleoliad yn trefnu i'r presgripsiwn gael ei lenwi gan y fferylllydd perthnasol.

Roedd cyffuriau a chyfarpar brys ar gael i'r lleoliad a oedd wedi'u storio yn y ganolfan feddygol i lawr y grisiau os byddai gan glaf argyfwng (llewygu). Roedd gan y lleoliad bolisiau amrywiol mewn perthynas â chleifion yn llewygu, anaffylacsis ac adfywio. Roedd tystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys.

Byddai unrhyw hysbysiadau'n cael eu derbyn drwy fewnflwch rheolwr y practis ac yn cael eu rhannu â'r staff yn ôl yr angen.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y clinig yn diogelu oedolion a phlant, a bod achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Roedd polisïau diogelu cyfredol ar waith. Roedd arweinydd diogelu'r practis yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn gyfredol ac roedd hefyd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt ar gyfer lleisio pryderon.

Byddai'r bwrdd iechyd yn hysbysu'r lleoliad am unrhyw newidiadau i bolisïau diogelu cenedlaethol drwy'r ganolfan feddygol. Roedd y staff yn y lleoliad wedi cael eu hyfforddi hyd at lefel un mewn diogelu.

Yn ogystal â'r polisi diogelu roedd polisi datgelu er lles y cyhoedd a pholisi chwythu'r chwiban.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom nodi bod dyfeisiau meddygol yn y lleoliad yn cael eu calibradu, eu gwasanaethu a'u cynnal yn unol â'r trefniadau yn y ganolfan feddygol. Byddai rheolwr y practis yn cael gwybod am unrhyw ddiffygion i'w huwchgysfeirio ymhellach.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y clinig ac roeddent o'r farn bod y gofal a ddarperir yn amserol a bod y cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a bod polisïau a gweithdrefnau clinigol ar gael. O siarad â'r staff yn y lleoliad, gan gynnwys uwch aelodau o'r staff, cawsom wybod mai ychydig o gleifion sydd ag anghenion ychwanegol oedd yn mynychu eu clinig.

Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn cael eu cynnal i safon dda ac yn cynnig cofnod cyfoes o'r rhyngweithio â'r cleifion.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hasesu a'u monitro o adborth a ddarperir gan y cleifion. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod ymatebion cadarnhaol wedi'u derbyn.

Fodd bynnag, nid oedd y lleoliad wedi cwblhau ffurflen flynyddol ar gyfer AGIC yn ôl y gofyn a oedd yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd wrth gynnal y lleoliad yn erbyn y gofynion a nodir yn y rheoliadau perthnasol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau'r ffurflen flynyddol fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau a'i hanfon i AGIC.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y cofnodion a ddefnyddir yn y lleoliad yn gymysgedd o gofnodion y staff ar bapur ac roedd y cyfrifon, yr apwyntiadau a'r ddogfennaeth arall yn electronig. Roedd cofnodion meddygol y cleifion yn cael eu cadw ar gymysgedd o gofnodion electronig a phapur yn dibynnu ar yr ymgynghorydd. Byddai'r ymgynghorwyr a oedd yn cadw cofnodion meddygol y cleifion ar bapur yn mynd â'r cofnodion hyn i ffwrdd o'r lleoliad ar ddiwedd y clinig. Fodd bynnag, nid oedd y lleoliad yn ymwybodol o'r system a ddefnyddir i reoli data'r cleifion yn ddiogel nac o ba mor ddiogel oedd y cofnodion, ar ôl iddynt adael y lleoliad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ymgynghorwyr a oedd yn defnyddio'r ystafelloedd ymgynghori yn y lleoliad yn cadarnhau yn ysgrifenedig y dull a ddefnyddir i sicrhau bod cofnodion meddygol y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel a bod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnodau a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Rheoli cofnodion

Roedd safon y gwaith cadw cofnodion yn rhoi tystiolaeth o atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut roedd penderfyniadau yn ymwneud â gofal cleifion yn cael eu gwneud. Roedd cofnodion y cleifion a wiriwyd yn foddhaol ond gellid eu gwella.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr ymgynghorwyr sy'n defnyddio'r lleoliad yn cael eu hysbysu am yr angen i sicrhau bod cofnodion meddygol y cleifion:

- Yn sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu dyddio a'u llofnodi pan gânt eu defnyddio fel tystiolaeth gan asiantaethau allanol
- Dogfennu'r rhai sy'n bresennol yn ystod ymgynghoriad â phlant dan oed
- Pan gaiff meddyginiaeth ei rhagnodi, caiff hanes alergeddau ei ddogfennu
- Caiff llythyrau eu hanfon mewn modd amserol yn hysbysu meddygon teulu am unrhyw asesiad neu ddiagnosis
- Dogfen cydsyniad
- Dogfennu'r cyffuriau a'r pwythau a ddefnyddir ar gyfer unrhyw doriadau.

Roedd pob claf a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod ei hanes meddygol wedi cael ei wirio a'i fod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd gan y clinig reolwr swyddfa i helpu rheolwr y practis i reoli'r clinig o ddydd i ddydd. Roedd strwythur rheoli clir ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Dim ond newydd ymddiswyddo o'i rôl roedd y rheolwr cofrestredig a nodwyd ar y ffeil ac roedd angen i'r lleoliad benodi rheolwr cofrestredig arall a chwblhau'r gwaith papur perthnasol â'r AGIC.

Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod rheolwr cofrestredig newydd yn cael ei benodi a bod y gwaith papur perthnasol yn cael ei ddiwygio ag AGIC.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, gan nodi eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau, heblaw pwy oedd wedi adolygu'r dogfennau a'u llofnod. Roedd copiâu papur ar gael yn y dderbynfa i gleifion eu cymryd pe gofynnwyd am hynny. Roedd y gwasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r datganiad o ddiben.

Trafodwyd y broses i adolygu a chytuno ar y polisiau a'r gweithdrefnau, ynghyd â sut roedd y staff yn ymwybodol o unrhyw bolisiau a gweithdrefnau newydd neu newidiadau i rai presennol.

Roedd y lleoliad yn cael hysbysiadau diogelwch drwy eu cyswllt â'r ganolfan gymunedol a byddai'r rhain yn cael eu rhannu yn ôl yr angen.

Dim ond dau o dystysgrifau cofrestru AGIC perthnasol oedd wedi'u harddangos, ac mae angen i'r lleoliad sicrhau bod holl dystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos yn y lleoliad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod holl dystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn y lleoliad.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau ar waith, a oedd ar gael i'r staff, ac roeddent wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar gael yn y clinig, a oedd i'w gweld yn y clinig. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys gwybodaeth am bwy y gallai'r cleifion gysylltu â nhw am gyngor, gan gynnwys manylion AGIC, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer ymateb i gwynion.

Disgrifiwyd y broses gwyno gan reolwr y practis. Dywedwyd wrthym y cafwyd dwy gŵyn yn y 12 mis diwethaf, a bod y ddwy gŵyn wedi cael eu cydnabod ac yr aed i'r afael â nhw mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod unrhyw risgiau a phryderon yn cael eu codi â'r ymgynghorydd perthnasol, a fyddai'n ymchwilio i'r mater ac yn adrodd ar ei ganfyddiadau fel y bo'n briodol. Roedd unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob aelod o'r staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn ddigonol er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion a darparu'r gwasanaethau a gynigir yn y clinig.

Roedd polisi recriwtio ar waith ond nid oedd yn cyfeirio at yr angen i gael gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd ac i gael hanes cyflogaeth llawn, ar gyfer aelodau newydd o'r staff.

Roedd hefyd angen i system fod ar waith i sicrhau bod person yn dal i fod yn addas i weithio ar gyfer y gwasanaeth. Gallai hyn fod drwy ailadrodd gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd a hunan-ddatganiad gan y staff i gadarnhau na chafwyd unrhyw newid i'w statws gyda'r gwasanaeth datgelu a gwahardd.

Roedd rhestr wirio sefydlu ar waith i staff newydd sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi'n ddigonol yng ngweithrediad y lleoliad. Fodd bynnag, nid oedd gofyniad am restr wirio sefydlu i roi tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r cyfnod sefydliad drwy gyflawni proses gymeradwyo briodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y polisi recriwtio yn cynnwys cyfeiriad at yr angen am wiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd a chael hanes cyflogaeth llawn ar gyfer staff newydd cyn iddynt ddechrau mewn cyflogaeth
- Bod system ar waith ar gyfer cadarnhau bod person yn addas o hyd i weithio i'r gwasanaeth drwy ailadrodd gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd yn rheolaidd a bod y staff yn cwblhau hunanddatganiad i gadarnhau na fu newid i'w statws o ran y gwasanaeth datgelu a gwahardd
- Bod rhestr wirio sefydlu yn cael ei chwblhau a'i chymeradwyo ar gyfer pob aelod newydd o staff.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod staff yn bresennol yn y clinig gan ddibynnu ar yr ystafelloedd ymgynghori a oedd yn weithredol. Roedd staff rhan amser yn cael eu cyflogi a gallai eu horiau fod yn hyblyg er mwyn cyflenwi shifftiau.

Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau wedi cael eu cwblhau ar gyfer staff ers peth amser, ond roedd rheolwr y swyddfa bellach yn gyfrifol am hyn ac roedd wrthi'n arfarnu'r staff a dylai'r rhain gael eu cwblhau erbyn diwedd Ebrill.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl staff a gyflogir yn y lleoliad a bod proses ar waith i sicrhau bod y staff yn cael arfarniad blynyddol.

Dangosodd sampl o gofnodion hyfforddiant tri aelod o'r staff fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol gan gynnwys atal a rheoli heintiau, diogelu, hyfforddiant silindrau ocsigen a chynnal bywyd sylfaenol ar-lein.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd iawn a bod gwybodaeth fel arfer yn cael ei throsglwyddo i'r staff drwy e-bost, bod rhai aelodau o'r staff dim ond yn gweithio am bedair i bump awr yr wythnos ac nad oeddent bob amser yn bresennol yn y lleoliad yn ystod oriau gwaith arferol. Roedd y cyfarfod llawn diwethaf ym mis Awst 2024 ac roedd cyfarfod rhannol ym mis Rhagfyr 2024.

Dylai'r lleoliad sicrhau bod cyfarfodydd staff misol yn cael eu cynnal, lle caiff cofnodion eu cymryd o'r cyfarfodydd a'u rhannu â'r holl staff. Os na fydd staff yn gallu bod yn bresennol, dylid rhoi'r cyfle iddynt godi unrhyw faterion a bod yn bresennol yn y cyfarfodydd o bell os byddant yn dymuno.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio yn y clinig mewn cypyrddau dan glo. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd gwiriadau tymheredd yn y clinig yn ystod yr arolygiad.	Gellid storio meddyginiaeth ar dymheredd sy'n effeithio ar ei heffeithlonrwydd.	Rhoddwyd gwybod i'r rheolwyr.	Prynwyd thermomedr a lluniwyd log i fonitro'r tymheredd yn yr ystafell lle'r oedd y feddyginiaeth yn cael ei gwirio.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed

Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2025 a 7 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed

Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2025 a 7 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	O'r wybodaeth sydd wedi'i harddangos yng nghofnodion meddygol y cleifion, roedd yn amlwg bod y cleifion yn cael amser i ystyried opsiynau eu triniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cydsyniad yn cael ei gofnodi yn y cofnodion meddygol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff tystiolaeth o gydsyniad ysgrifenedig yn cael ei chynnwys yn y cofnodion meddygol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (4) (b)	Rydym wedi ysgrifennu at ymgynghorwyr i roi gwybod bod yn rhaid cofnodi cydsyniad yn unol â rheoliadau AGIC. Rydym wedi rhoi polisi ar waith ac wedi rhoi'r polisi hwn i ymgynghorwyr a gellir defnyddio cydsyniad ar gyfer hynny os bydd angen.	MK	Wedi'i gwblhau
2.					SC	

	Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn y lleoliad yn Saesneg. O ystyried bod y gwasanaeth yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.	Dylai'r lleoliad ystyried anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Safon Ofynnol Genedlaethol 18 - Cyfathrebu'n Effeithiol	Mae taflenni Cymraeg wedi'u rhoi yn yr ardal aros bellach. Ceir arwydd hefyd i nodi y gellir trefnu Meddyg sy'n siarad Cymraeg drwy gytundeb ymlaen llaw.		Wedi'i gwblhau
3.	Roedd rhagofalon diogelwch tân priodol ar waith o ran cyfarpar tân a'r diffoddwyr tân ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar diogelwch tân a'r cyfarpar canfod tân. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd ymarfer tân	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis a bod cofnod o'r gwiriadau hyn yn cael ei gadw ar ffeil.	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 26 (4) (d)	Caiff ymarfer tân ei drefnu a'i gofnodi. Caiff copïau o'r cofnodion eu cadw gan CMC a CCR	ST	Dylid ei gwblhau erbyn 30/06/2025

	wedi'i gynnal yn y practis ers diwedd 2023.					
4.	Nid oedd y lleoliad wedi cwblhau ffurflen flynyddol ar gyfer AGIC fel sy'n ofynnol sy'n asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd wrth gynnal y lleoliad yn erbyn y gofynion a nodir yn y rheoliadau perthnasol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau'r ffurflen flynyddol fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau a'i hanfon i AGIC.	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 19(2)	Cyflwynwyd cais am reolwr cofrestredig newydd a datgofrestrwyd y Rheolwr cofrestredig blaenorol. Yna caiff ffurflen flynyddol ei chwblhau.	SC/ST	Yn ddibynnol ar ymateb gan AGIC
5.	Byddai'r ymgynghorwyr a oedd yn cadw cofnodion meddygol y cleifion ar bapur yn mynd â'r cofnodion hyn i ffwrdd o'r lleoliad ar ddiwedd y clinig. Fodd bynnag,	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ymgynghorwyr a oedd yn defnyddio'r ystafelloedd ymgynghori yn y lleoliad yn cadarnhau yn ysgrifenedig y dull a ddefnyddir i sicrhau bod cofnodion meddygol y	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 23(2) Deddf Diogelu Data 1998 / Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (yr UE) 2016	Rydym wedi trefnu ffurflen gydsynio i'r ymgynghorwyr ei llofnodi i gadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw	Rydym wedi llunio ffurflen y bydd yn rhaid i'r ymgynghorwyr ei llenwi i roi gwybod i ni sut a ble y caiff y	Wedi'i gwblhau

	nid oedd y lleoliad yn ymwybodol o'r system a ddefnyddir i reoli data a gwybodaeth y cleifion yn ddiogel na pha mor ddiogel oedd y cofnodion ar ôl iddynt adael y lleoliad.	cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel a bod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnodau a nodir yn y ddeddfwriaeth.			cofnodion eu storio'n ddiogel.	
6.	Roedd safon y gwaith cadw cofnodion yn rhoi tystiolaeth o atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut roedd penderfyniadau yn ymwneud â gofal cleifion yn cael eu gwneud. Roedd cofnodion y cleifion a wiriwyd yn foddhaol ond gellid eu gwella.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr ymgynghorwyr sy'n defnyddio'r lleoliad yn cael eu hysbysu am yr angen i sicrhau bod cofnodion meddygol y cleifion: - Sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu dyddio a'u llofnodi pan gânt eu defnyddio fel tystiolaeth gan asiantaethau allanol - Cynnwys y rhai sy'n bresennol yn ystod yr	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 23(1)	Rydym wedi ysgrifennu at yr ymgynghorwyr i roi gwybod iddynt beth sydd angen ei gofnodi a rhoi gwybod y caiff archwiliadau eu cymryd i wirio'r manylion hyn.	MK	Wedi'i gwblhau

		ymgyngoriad gyda phlant dan oed • Pan gaiff meddyginiaeth ei rhagnodi, caiff hanes alergeddau ei ddogfennu • Caiff llythyrau eu hanfon mewn modd amserol yn hysbysu meddygon teulu am unrhyw asesiad neu ddiagnosis • Rhaid dogfennu cydsyniad • Caiff y cyffuriau a'r pwythau a ddefnyddir ar gyfer unrhyw driniaeth eu dogfennu.				
7.	Dim ond newydd ymddiswyddo o'i rôl roedd y rheolwr cofrestredig a nodwyd	Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod rheolwr cofrestredig newydd yn cael ei benodi a bod y gwaith papur	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 11(2)	Rhoddwyd hyn ar waith a chyflwynwyd yr holl waith papur perthnasol i AGIC	ST	Wedi'i gwblhau

	ar y ffeil ac roedd angen i'r lleoliad benodi rheolwr cofrestredig arall a chwblhau'r gwaith papur perthnasol â'r AGIC.	perthnasol yn cael ei ddiwygio ag AGIC.				
8.	Dim ond dau o dystysgrifau cofrestru AGIC perthnasol oedd wedi'u harddangos, ac mae angen i'r lleoliad sicrhau bod holl dystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos yn y lleoliad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod holl dystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn y lleoliad.	Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliad 28	Mae'r dystysgrifau wedi'u harddangos bellach	SC	Wedi'i gwblhau
9.	Nid oedd y polisi recriwtio yn cyfeirio at yr angen i gael gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd ac i gael hanes cyflogaeth llawn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: Mae'r polisi recriwtio yn cynnwys cyfeiriad at yr angen am wiriadau gan y	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 21(2) ac Atodlen (2)	Mae'r polisi recriwtio wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r angen am wiriadau gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd	ST/SC	Wedi'i gwblhau

ar gyfer aelodau newydd o staff. Roedd angen cael system ar waith i sicrhau bod unigolyn yn addas o hyd i weithio i'r gwasanaeth, a gellid gwneud hyn drwy ailadrodd gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd a chael hunanddatganiad gan y staff i gadarnhau nad oedd unrhyw newid i'w statws o ran y gwasanaeth datgelu a gwahardd. Roedd rhestr wirio sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff. Fodd bynnag, nid oedd gofyniad am	gwasanaeth datgelu a gwahardd a chael hanes cyflogaeth llawn ar gyfer aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ddechrau yn eu cyflogaeth • Bod system ar waith ar gyfer cadarnhau bod person yn addas o hyd i weithio i'r gwasanaeth drwy ailadrodd gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd yn rheolaidd a bod y staff yn cwblhau hunanddatganiad i gadarnhau na fu newid i'w statws o ran y gwasanaeth datgelu a gwahardd • Bod rhestr wirio sefydlu yn cael ei chwblhau a'i chymeradwyo ar gyfer pob aelod newydd o staff.	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 9(1)(h)	Eisoës ar waith Mae rhestr wirio sefydlu wedi'i llunio ac mae'n rhan o'r polisi sefydlu		
--	---	---	---	--	--

	restr wirio sefydlu i roi tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r cyfnod sefydliad drwy gyflawni proses gymeradwyo briodol.					
10.	Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau wedi cael eu cwblhau ar gyfer staff ers peth amser, ond roedd rheolwr y swyddfa bellach yn gyfrifol am hyn ac roedd wrthi'n arfarnu'r staff a dylai'r rhain gael eu cwblhau erbyn diwedd Ebrill.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl staff a gyflogir yn y lleoliad a bod proses ar waith i sicrhau bod y staff yn cael arfarniad blynyddol.	Rheoliad Gofal Iechyd Annibynnol 20(2)	Caiff arfarniadau staff eu cynnal bellach	SC	Wedi'i gwblhau
11.	Dywedwyd wrthym nad yw cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd iawn ac nad oedd gwybodaeth fel arfer yn cael ei	Dylai'r lleoliad sicrhau bod cyfarfodydd staff misol yn cael eu cynnal, lle caiff cofnodion eu cymryd o'r cyfarfodydd a'u rhannu â'r holl staff. Os na fydd staff	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 25, Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	Byddwn yn cynnig cyfarfodydd tîm lle y bo'n bosibl. Dosbarthu agendâu a chofnodion a	SC	Wedi'i gwblhau

rhannu â'r staff dros e-bost, roedd rhai aelodau o'r staff dim ond yn gweithio pedair i bump awr yr wythnos ac nid oeddent bob amser yn bresennol yn y lleoliad yn ystod oriau gwaith. Roedd y cyfarfod llawn diwethaf ym mis Awst 2024 ac roedd cyfarfod rhannol ym mis Rhagfyr 2024.	yn gallu bod yn bresennol, dylid rhoi'r cyfle iddynt godi unrhyw faterion a bod yn bresennol yn y cyfarfodydd o bell os byddant yn dymuno.		chaniatáu amseroedd ymateb ar gyfer unrhyw ychwanegiadau. Cael grŵp WhatsApp i'r staff Sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael yr opsiwn i gyfrannu Cadw cofnodion o gyfarfodydd.		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Thomas

Teitl swydd: Rheolwr Practis CMC

Dyddiad: 2 Mehefin 2025